OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 919

# Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2024 yn ddarostyngedig i drefniadau darfodol**

**6.**—(1) Daw adran 15 (cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu'r cynllun strategol) i rym ar 1 Ebrill 2024 yn ddarostyngedig i'r addasiad a nodir ym mharagraff (2) sy'n gymwys yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2024 ac sy'n dod i ben ar 16 Rhagfyr 2024.

(2) Mae adran 15(1) i'w darllen fel pe bai'r geiriau "cynllun strategol a lunnir o dan adran 14 at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y datganiad o dan adran 13(1)" yn darllen fel "y cynllun strategol cyntaf y mae'n ei lunio o dan adran 14 at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo erbyn 15 Rhagfyr 2024".